

13. Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn y bennod hon rhoddir sylw i gyfrifoldebau ysgolion o safbwynt darparu addysg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan gyrff llywodraethu gyfrifoldebau pwysig tuag at blant ag ADY.

Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol?

1. Mae cwmpas y term ADY yn llawer ehangach ei ystyr na'r term 'anghenion addysgol arbennig'. Mae'n cydnabod yr anghenion amrywiol a chymhleth sydd gan ddysgwyr ac yn cyfleu dull mwy cyfannol o ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.
2. Bydd angen cymorth dysgu ychwanegol ar bobl sydd ag ADY, am ba reswm bynnag, am eu bod yn cael trafferth i ddysgu o gymharu â'u cyfoedion.
3. Felly gall fod angen cymorth dysgu ychwanegol ar ddisgyblion ysgol os cânt drafferth i ddysgu oherwydd:
 - bod ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA);
 - bod ganddynt anabledd;
 - bod ganddynt anghenion meddygol;
 - bod ganddynt fylchau yn eu gwybodaeth neu eu sgiliau oherwydd absenoldebau estynedig o'r system addysg e.e. disgyblion sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, disgybl sydd â ffobia am fynd i'r ysgol neu droseddwy'r ifanc;
 - bod eu hamgylchiadau teuluol yn anodd e.e. oherwydd profedigaeth;
 - eu bod yn derbyn addysg anghyson e.e. disgyblion sy'n Sipsiwn neu'n deithwyr; neu
 - nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf e.e. ceiswyr lloches/ffoaduriaid/plant gweithwyr mudol;
 - eu bod yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol e.e. plentyn yr amharwyd ar ei addysg cyn iddo gael ei gymryd i mewn i ofal neu sydd wedi newid ysgol yn aml ers cael ei gymryd i mewn i ofal;
 - eu bod yn tangyflawni oherwydd cyfrifoldebau gofal e.e. gofawyr ifanc;
 - eu bod yn feichiog neu'n rhiant ifanc;
 - bod eu cyfoedion neu bobl eraill yn eu bwlio oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol e.e. disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol;
 - eu bod yn ddisgyblion sy'n perfformio neu sy'n gwneud gwaith cyflogedig.

4. Ni ystyrir bod ADY gan ddisgyblion a ddiffinnir yn fwy galluog a thalentog oni bai bod ganddynt AAA neu eu bod yn cael mwy o anhawster, am ba reswm bynnag, i ddysgu pwnc neu sgil penodol o gymharu â'r mwyafrif o ddisgyblion o'r un oed nad ydynt yn fwy galluog a thalentog (gweler yr enghreifftiau uchod).

5. Mae canllaw Estyn i Arolygwyr Cofrestredig yn nodi rhai o'r grwpiau uchod o ddysgwyr fel rhai a allai fod yn agored i niwed (h.y. 'mewn perygl' yn gymdeithasol ac yn addysgol a bod angen rhoi sylw i'w cynhwysiant cymdeithasol a'u lles) ar wahân i ddysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae'r canllaw yn nodi'n glir nad yw pob dysgwr mewn grŵp agored i niwed yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol neu'n methu yn eu haddysg, ond eu bod mewn mwy o berygl na dysgwyr eraill.

6. Gall rhai dysgwyr fod yn perthyn i'r ddau grŵp e.e. dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae rhai gofynion statudol yn gysylltiedig â rhai, er nad pob un, o'r grwpiau hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 2 o'r cylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

Anghenion Addysgol Arbennig

7. Mae'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' yn is-gategori o ADY ac yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer dysgwyr ag anabledd dysgu y mae angen darpariaeth addysg arbennig ar eu cyfer.

8. O dan Ddeddf Addysg 1996 (adran 312) a Chod Ymarfer AAA Cymru (2002), mae gan blentyn anhawster dysgu:

- (a) os bydd ganddo anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na mwyafrif y plant o'r un oed; neu
- (b) os oes ganddo anabledd sydd naill ai'n ei atal neu'n arafu ei ddefnydd o gyfleusterau addysgol a ddarparir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion o fewn dalgylch yr ALI; neu
- (c) os bydd yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ac yn debygol o fod yn perthyn i ddiffiniad (a) neu (b) uchod, neu y byddai'n perthyn i'r diffiniadau hyn pe na bai'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig.

Bydd yr adran hon yn cyfeirio'n benodol at y categorïau uchod sy'n destun dyletswydd statudol. Ar gyfer pob grŵp arall, dylid cyfeirio at y canllaw anstatudol a nodir yng Nghylchlythyr 47/2006 Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion ac unrhyw ganllawiau polisi dilynol a gyhoeddir gan Lywodraeth y Cynulliad o safbwynt y grwpiau hyn o ddysgwyr.

9. Ni fu addysg plant ag AAA erioed yn fater i ysgolion arbennig yn unig. Bydd anghenion y mwyafrif o'r disgyblion ag AAA yn cael eu diwallu mewn ysgolion cyffredin. Un o'r prif egwyddorion wrth wraidd y polisi AAA ers cyhoeddi adroddiad Pwyllgor Warnock ym 1978 yw y dylai plant ag AAA

fynychu ysgolion prif ffrwd lle bo hynny'n briodol. Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod y fframwaith ar gyfer hyn. O dan hyn, cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn 2002 ar nodi ac asesu AAA. Mae'r Cod yn nodi canllawiau manwl ar bob agwedd ar ddarparu ar gyfer AAA mewn ysgolion cyffredin ac ysgolion arbennig. Rhaid i bob ysgol, ALI, a darparwyr eraill roi ystyriaeth i'r Cod. Mae gan gyrff llywodraethu hefyd gyfrifoldebau pwysig tuag at blant ag anghenion arbennig, pa un a oes ganddynt ddatganiad ai peidio. Rhoddir crynodeb o'r cyfrifoldebau hyn yn y bennod hon. Yn ogystal, mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 wedi cryfhau hawl disgyblion ag AAA i dderbyn addysg prif ffrwd.

Diffinio AAA

10. Mae'r term 'Anghenion Addysgol Arbennig' yn parhau i gael ei ddefnyddio i nodi pobl ag anawsterau dysgu sy'n amrywio o anghenion llai dwys i anghenion difrifol a chymhleth a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu penodol. Yn gyfreithiol, diffinnir plentyn fel plentyn sydd ag AAA os oes ganddo neu ganddi anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth arbennig. Nid plant sydd ag anghenion dysgu amlwg, megis y rhai hynny sy'n gorfforol anabl neu sydd â nam ar y golwg neu'r clyw, yw'r unig rai y mae arnynt angen addysg arbennig, ond hefyd rhai ag anawsterau dysgu llai amlwg, megis plant sy'n datblygu'n arafach ac sy'n emosiynol fregus. Amcangyfrifir y gall hyd at 20% o blant ysgol fod angen cymorth addysgol arbennig yn ystod rhyw gam o'u gyrfaeodd ysgol.

11. Gellir gwneud trefniadau addysgol arbennig mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Gall olygu cymorth ychwanegol i blentyn sy'n cael ei addysgu mewn dosbarth arferol; neu gall olygu addysgu'r plant ar wahân, mewn uned gydag adnoddau arbennig mewn ysgol gyffredin, neu mewn ysgol arbennig. Mewn rhai achosion gall anghenion y plentyn fod yn gymhleth neu'n ddifrifol iawn a bydd rhaid i'r ALI wneud asesiadau statudol yn seiliedig ar gyngor arbenigol.

Cyfrifoldeb yr ALI

12. Ceidw'r ALI y cyfrifoldeb cyffredinol am y ddarpariaeth AAA ac mae'n gyfrifol am asesu plant ag AAA yn ffurfiol yn eu hardal y gall fod arnynt angen datganiad. Gall asesiad statudol arwain at yr ALI yn gwneud datganiad o anghenion addysgol arbennig ar gyfer plentyn. Gall rhieni'r plentyn wneud cais am asesiad yr ALI neu gall yr ysgol ofyn am asesiad o'r plentyn sydd, yn eu barn hwy, angen asesiad statudol. Ar ôl i'r plentyn gael ei gyfeirio mae gan yr ALI chwe wythnos i ystyried a oes angen asesiad statudol.

Datganiad o AAA

13. Dogfen yw'r datganiad sy'n nodi holl AAA y disgybl a'r trefniadau angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny, naill ai mewn ysgol gyffredin neu ysgol arbennig. Rhaid cynnwys y rhieni yn y broses asesu, a rhoddir copi iddynt o'r datganiad o AAA. Rhaid i'r ALI adolygu pob datganiad yn flynyddol.

Fel rhan o'r broses adolygu, rhaid i'r ALI barhau i adolygu eu darpariaeth ar gyfer addysgu plant ag AAA. Mae dyletswydd gyffredinol ar ALLau i addysgu plentyn mewn ysgol prif ffrwd, ar yr amod bod hyn yn cyd-fynd â dymuniadau'r rhieni a bod y plentyn yn derbyn y ddarpariaeth addysgol arbennig briodol. Wrth gytuno i gynnwys y plentyn, dylai hynny hefyd olygu bod y plant eraill yn derbyn addysg effeithiol.

Mae chwe rhan i'r datganiad:

- | | |
|--------|---|
| Rhan 1 | Manylion personol gan gynnwys enw'r plentyn ac enw a chyfeiriad y rhieni. |
| Rhan 2 | Manylion anghenion addysgol arbennig y plentyn o safbwynt ei anawsterau dysgu. |
| Rhan 3 | Manylion y ddarpariaeth addysgol arbennig y dylid ei gwneud, gan gynnwys amcanion hirdymor i'w cyflawni, ac unrhyw drefniadau ar gyfer gosod targedau tymor byr a monitro cynnydd tuag at y targedau hynny. |
| Rhan 4 | Math ac enw'r ysgol lle y diwallir yr anghenion addysgol arbennig, neu'r trefniadau addysgol eraill, heblaw'r ysgol. |
| Rhan 5 | Manylion yr holl anghenion anaddysgol perthnasol, fel y cytunwyd gyda'r gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill a'r ALI. |
| Rhan 6 | Sut y cyflawnir y ddarpariaeth anaddysgol er mwyn diwallu'r anghenion a nodir yn Rhan 5, gan gynnwys amcanion y ddarpariaeth a'r trefniadau ar gyfer monitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny. |

Apelau

14. Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau'r ALI os na ellir dod i gytundeb â rhieni.

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu

15. Dylai'r corff llywodraethu, gyda'r pennaeth, benderfynu ar bolisi cyffredinol yr ysgol a'r dull o ddiwallu anghenion addysgol arbennig plant yn achos y rhai sydd â datganiadau a'r rhai heb ddatganiadau. Rhaid iddynt hefyd wneud trefniadau staffio a chyllido priodol a goruchwylio gwaith yr ysgol. Gall y corff llywodraethu hefyd benodi pwyllgor i fonitro gwaith yr ysgol dros blant ag anghenion addysgol arbennig.

16. Mae gan gyrff llywodraethu ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf 1996 i wneud y canlynol:

- gwneud pob ymdrech i sicrhau y gwneir y trefniadau arbennig angenrheidiol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- gwneud yn siŵr bod y 'person cyfrifol' yn sicrhau bod yr holl staff sydd yn debygol o addysgu'r disgybl yn ymwybodol o'r anghenion hynny. Fel rheol y 'person cyfrifol' yw'r pennaeth, ond gall fod yn gadeirydd y corff llywodraethu neu'n llywodraethwr a benodir gan y corff llywodraethu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Os mai'r pennaeth yw'r 'person cyfrifol', gall fod yn ddefnyddiol i un llywodraethwr arall fod â diddordeb mewn anghenion arbennig;
- sicrhau bod yr athrawon yn yr ysgol yn ymwybodol o bwysigrwydd canfod plant sydd ag anghenion addysgol arbennig a darparu addysg briodol;
- ymgynghori gyda'r ALI a chyrff llywodraethu ysgolion eraill pan fo'n ymddangos bod angen cydgysylltu addysg arbennig yn yr ardal;
- trefnu fel bod disgyblion ag anghenion arbennig yn gallu ymuno yng ngweithgareddau bob dydd yr ysgol pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol;
- adrodd bob blwyddyn wrth y rhieni ar eu polisi ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig; ac
- ystyried y Cod Ymarfer wrth gyflawni eu dyletswyddau tuag at yr holl ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

17. Rhaid i gyrff llywodraethu gyhoeddi gwybodaeth am eu polisiâu anghenion arbennig. Rhaid i'r polisiâu hyn fod ar gael am ddim i'r rhieni.

18. Rhaid i'r corff llywodraethu dderbyn disgyblion y mae ei ddatganiad o AAA yn enwi ei ysgol. Cyn enwi ysgol mewn datganiad, rhaid i'r ALI ymgynghori â chorff llywodraethu'r ysgol honno.

19. Mae gan rieni plant sydd â datganiadau o AAA yr hawl i ddatgan eu dewis penodol o ysgol a gynhelir ar gyfer eu plentyn. Rhaid i'r ALI gydymffurfio â dewis y rhieni cyhyd â bod yr ysgol yn addas i'r plentyn, bod y plant eraill yn yr ysgol yn cael eu haddysgu'n effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon.

Athrawon sy'n Gyfrifol am Anghenion Addysgol Arbennig

20. Dywed y Cod y dylai pob ysgol gael athro a enwir sy'n gyfrifol am:

- weithredu polisi AAA yr ysgol o ddydd i ddydd;
- cydweithio â chyd-athrawon a'u cynghori;
- cydgysylltu'r addysg a ddarperir i blant ag AAA;

- cadw ac arolygu cofnodion pob disgybl ag AAA;
- cadw mewn cysylltiad â rhieni plant sydd ag AAA;
- cyfrannu at hyfforddiant mewn-swydd staff; a
- chydweithio ag asiantaethau allanol gan gynnwys y gwasanaeth seicoleg addysg ac asiantaethau cymorth eraill, gwasanaethau meddygol a chymdeithasol a chyrrff gwirfoddol. Dyma rôl y cydgysylltydd AAA.

21. Mewn ysgol fach, gall un person ysgwyddo rôl y cydgysylltydd AAA, y pennaeth neu'r dirprwy efallai. Mewn ysgolion mwy, efallai y bydd tîm cymorth dysgu neu gydgyssylltydd AAA. Bydd yr amser a'r sylw y gall y cydgysylltydd AAA ei neilltuo i'w gyfrifoldebau yn dibynnu ar amgylchiadau'r gwahanol ysgolion. Rhaid i gyrrff llywodraethu a phenaethiaid feddwl yn ofalus am amserlen y cydgysylltydd AAA yng ngoleuni'r Cod Ymarfer a'r adnoddau sydd ar gael i'r ysgol.

22. Mae pob cwrs hyfforddi athrawon cychwynnol yn rhoi sylw i anghenion plant ag AAA ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi safonau cenedlaethol ar gyfer athrawon newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Athro Newydd Gymhwysu fod yn gyfarwydd â'r Cod Ymarfer, er mwyn gallu canfod disgyblion ag anghenion arbennig a gwybod ble i gael help i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar y disgyblion hyn. Mae hyfforddiant mewn-swydd ar gael, sy'n cwmpasu sawl agwedd ar anghenion arbennig, ac efallai y bydd chyrrff llywodraethu am annog athrawon i fanteisio ar hyfforddiant o'r fath.

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

23. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn rhywbeth y gall pob disgybl ei hawlio, waeth beth yw ei gefndir cymdeithasol, ei ddiwylliant, ei hil, ei ryw a'i nodweddion gwahanol o ran gallu ac anabledau.

24. Mae cwricwlwm diwygiedig Medi 2008 yn pennu disgwyliadau o ran dysgu a chyrrhaeddiad er lles disgyblion, rhieni, athrawon, llywodraethwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd. Mae'n sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer perfformiad pob disgybl yn y pynciau sy'n perthyn iddo.

Ei nod yw:

- canolbwyntio ar y dysgwr;
- sicrhau bod datblygu sgiliau priodol yn treiddio drwy'r cwricwlwm;
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3-19;
- cynnig llai o gynnwys a chanolbwyntio mwy ar sgiliau;
- bod yn hyblyg;
- bod yn berthnasol i'r 21ain ganrif;
- cefnogi polisi'r Llywodraeth.

25. Mae'r testun 'Cynnwys pob dysgwr' yn ymddangos ar ddechrau pob Gorchymyn Pwnc a Fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn nodi y caiff ysgolion ddefnyddio cynnwys o gyfnodau/cyfnodau allweddol blaenorol yn y cwricwlwm er mwyn i bob dysgwr gael mynediad at sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar lefel briodol. Dylai ysgolion ddefnyddio anghenion y dysgwr fel man cychwyn ar gyfer cynllunio ac addasu rhaglenni astudio yn ôl y gofyn. Mae'r cwricwlwm yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr heb orfod datgymhwyso. Mewn achosion eithriadol, gellir datgymhwyso dysgwyr unigol (o bynciau penodol neu efallai'n ehangach am gyfnod dros dro ar gyfer disgyblion newydd ac ati). Ni ddylid datgymhwyso grwpiau na datgymhwyso ar raddfa fawr.

26. Os nad oes modd ymdrin â chynnwys yr holl raglenni astudio ar gyfer pob cyfnod allweddol, gellir bodloni'r gofyniad statudol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddewis pynciau/themâu priodol o fframwaith y cwricwlwm yn gyd-destunau ar gyfer dysgu. Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Ar gyfer pob dysgwr, dylai ysgolion ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrion a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr;
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

27. Yn ogystal â Gorchymynion Pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol, gellid rhoi mwy o bwyslais ar fframweithiau diwygiedig addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac ar ddatblygu meddwl, cyfathrebu, datblygu rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm er mwyn diwallu prif anghenion pob dysgwr.

28. Yn gyffredinol, dylai'r cwricwlwm geisio darparu i bob dysgwr ddealltwriaeth wirioneddol a sgiliau bywyd perthnasol nid dim ond cynnwys y pwnc yn unig. Nid cyfres o brofiadau 'un-tro' yw cwricwlwm effeithiol. Rhaid ei gynllunio gan gadw anghenion y dysgwr mewn cof i sicrhau yr ystyrir blaenoriaethau unigol a chysyniadau allweddol yn rheolaidd o fewn amrywiol gyd-destunau er mwyn sicrhau bod sgiliau a dealltwriaeth berthnasol yn cael eu dysgu, eu trosglwyddo a'u sefydlu.

29. Rhaid i ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol a dylent ddarparu eglurhad clir o'u penderfyniadau i bwysleisio rhai agweddau ar y cwricwlwm i gyd-fynd ag anghenion y dysgwyr a gofynion deddfwriaeth gydraddoldeb. Dylid cofnodi'r rhesymau mewn datganiadau polisi'r cwricwlwm cyfan neu bolisiâu pynciau.

Asesu Cyrhaeddiad

30. Er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a'r fframweithiau asesu diwygiedig yn canolbwyntio ar y dysgwr, mae egwyddorion asesu ar gyfer dysgu yn rhan annatod ohonynt fel bod athrawon yn monitro cynnydd eu disgyblion fel rhan arferol o'u haddysgu. Yn unol â'r gyfraith, rhaid i ysgolion asesu cyrhaeddiad y disgyblion ar adegau allweddol o'u haddysg orfodol. Mae'r adegau allweddol hyn pan fo disgyblion wedi cyflawni rhaglenni astudio 2 a 3, yn 7, 11 a 14 oed fel arfer. Gelwir y broses hon yn asesu statudol a'r athro sy'n gwneud yr asesiad. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gall gynnwys adnoddau asesu dewisol hefyd.

31. Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, fel arfer bydd disgyblion yn sefyll arholiadau cyhoeddus, er enghraifft TGAU. Tra bod trefniadau mynediad amrywiol ar gael i gynorthwyo dysgwyr ag anableddau, ni fydd arholiadau TGAU yn diwallu anghenion pob dysgwr. Dylai ysgolion geisio achrediad priodol ar ffurf Tystysgrifau Lefel Mynediad a chyfleoedd i achredu dysgu ehangach.

32. Ar gyfer pob pwnc o'r cwricwlwm cenedlaethol, mae yna raglen astudio sy'n pennu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r pwnc y disgwylir i'r disgyblion eu datblygu ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae'r rhaglenni astudio hefyd yn cynnwys disgrifiad o lefelau i gynorthwyo asesiad yr athrawon - lefel 1-8 a "pherfformiad eithriadol". Yn y Gorchmynion Cwricwlwm diwygiedig, mae yna dri chanlyniad cwricwlwm cenedlaethol bellach, sy'n disgrifio perfformiad y dysgwyr sy'n gweithio'n is na lefel 1 y cwricwlwm cenedlaethol. Ar gyfer disgyblion sy'n gweithio ar y lefelau datblygu cynharaf, mae Adnoddau Ar Drywydd Dysgu yn darparu dull asesu mwy priodol.

Cyllid

33. Gall disgyblion ag AAA fod angen help ychwanegol. Yn achos disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ond nad oes ganddynt ddatganiad, cynhwysir y costau o fewn cyllideb ddirprwyedig yr ysgol. Wrth bennu cyllidebau ysgolion, dylai'r ALI ystyried y bydd gan rai ysgolion fwy o ddisgyblion ag AAA nag ysgolion eraill. Dylai nodi pa ran o gyllideb yr ysgol a neilltuwyd ar gyfer AAA, er y gall y corff llywodraethu ddewis gwario mwy neu lai na'r swm hwn ar ddiwallu anghenion arbennig. Dylai'r corff llywodraethu fod yn gwbl glir ynglŷn â pholisi'r ALI ar gyllido'r addysgu a'r gefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion â datganiadau, a disgyblion sydd heb ddatganiadau, ond sydd angen cymorth o'r tu allan i'r ysgol.

Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

34. Mae'r diffiniad o anabledd a geir yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn eang a gallai gynnwys cyfran sylweddol, er nad pob un, o ddisgyblion ag AAA.

35. Cafodd Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ei diwygio gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 er mwyn cynnwys addysg mewn ysgolion. Daeth dyletswyddau newydd ALLau i rym ar 1 Medi 2002. Rhoddodd y diwygiadau ddyletswydd ar ysgolion i beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion neu ddarpar ddisgyblion anabl ar sail anabledd. Rhoesant hefyd ddyletswydd ar ALLau ac ysgolion i gynllunio dros gyfnod i wella mynediad disgyblion anabl at addysg (gweler pennod 9, Cyfle Cyfartal a Llywodraethwyr Ysgol).

36. Cynhyrchodd y Comisiwn Hawliau Anabledd, sydd bellach yn rhan o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ddogfen gyfarwyddyd o'r enw *Cod Ymarfer i Ysgolion*, sy'n egluro'u dyletswyddau o dan [Ran 4 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995](#). Ceir copïau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol drwy ffonio 08457 622 633 neu drwy'r wefan www.equalityhumanrights.com.

Disgyblion ag Anghenion Meddygol

37. Mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin cyhoeddi dogfen gyfarwyddyd, 'Mynediad i Addysg a Chymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol'.

38. Bydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gyflwr meddygol rywbryd a all effeithio ar eu gallu i gyfrannu at weithgareddau'r ysgol, er mai am gyfnod byr yn unig y bydd hwn yn aml. Ystyrir bod anghenion meddygol gan ddisgyblion o'r fath. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chyda rhywfaint o gymorth gan yr ysgol gallant gyfrannu at y rhan fwyaf o weithgareddau arferol yr ysgol.

39. Mewn rhai achosion, gall cyflyrau meddygol gael effaith sylweddol ar brofiadau'r disgybl a'i berfformiad yn yr ysgol. Gall gael effaith uniongyrchol, lle gall y cyflwr meddygol effeithio ar alluoedd gwybyddol, galluoedd corfforol, ymddygiad neu gyflwr emosiynol y disgybl. Prif ddiben addysgu plant a phobl ifanc ag anghenion meddygol, cyn belled ag y bo modd, yw lleihau'r tarfu ar addysg arferol y disgybl trwy barhau'r addysg fel arfer i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

40. Rhaid i ALLau bennu trefniadau fel y gall disgyblion barhau â'u haddysg. Mae'r pwyslais ar barhau i ddysgu yr un mor berthnasol i ddisgyblion â phroblemau corfforol neu iechyd meddwl, disgyblion â salwch sy'n bygwth bywyd neu salwch terfynol. Mae hawl gan bob un o'r rhain i'r addysg sy'n gweddu i'w hoed, eu galluoedd, eu hanghenion a'u hiechyd ar y pryd. Mae hyn yr un mor berthnasol i ddisgyblion na allant fynychu'r ysgol oherwydd eu hanghenion meddygol, rhai sy'n gorfforol sâl neu wedi'u hanafu'n gorfforol, â disgyblion â phroblemau iechyd meddwl.

41. Mae angen gofal arbennig i sicrhau y rhoddir darpariaeth ddigonol i ddisgyblion y gall fod angen arnynt gymorth gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol. Gall y disgyblion fod yn dioddef o salwch meddwl, gorbryder, iselder a/neu ffobia ysgol, gan gynnwys gorbryder gwahanu a gwrthod mynd i'r ysgol sy'n gysylltiedig ag iselder sy'n eu rhwystro rhag mynd i'r ysgol.

42. Bydd Llywodraeth y Cynulliad cyn hir yn cyhoeddi dogfen arfer da i ysgolion ac ALLau ar hyrwyddo iechyd a lles emosiynol, gan gynnwys cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl.
43. Dylid cofio, er y gall fod anghenion dysgu ychwanegol gan ddisgyblion ag anghenion meddygol, nid yw diagnosis meddygol o reidrwydd yn golygu bod gan y disgybl AAA fel y'u diffinnir yn Neddf Addysg 1996. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall cyflwr meddygol gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y disgybl yn datblygu "anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na mwyafrif y plant o'r un oed," neu y bydd ei gyflwr yn gyfwerth ag anabledd sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed yn ei ardal leol. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd gan y disgybl AAA ac efallai y bydd angen cynnal asesiad statudol o'i anghenion.
44. Bydd gan yr ALI swyddog meddygol dynodedig a gweithwyr proffesiynol eraill i ystyried wrth drafod gyda rhieni a'r ysgol a oes gan y disgybl AAA hefyd ac a oes angen cynnig darpariaeth addysgol arbennig.
45. Fel arfer bydd Byrddau Iechyd Lleol yn penodi swyddog meddygol sy'n benodol gyfrifol am blant a phobl ifanc ag AAA. Dylai fod modd i blant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd cymhleth sy'n mynychu ysgolion arbennig gael cymorth nyrsys ysgol, a gyflogir gan y GIG. Gall Ymddiriedolaethau'r GIG, drwy Wasanaeth Iechyd yr Ysgol fel arfer, ddarparu cyngor a hyfforddiant i staff yr ysgol i ddarparu ar gyfer anghenion meddygol y disgybl.

Cyfrifoldebau Ysgolion a Chyrff Llywodraethu am Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol

46. Mae ysgolion unigol yn datblygu eu polisiau eu hunain i ddiwallu anghenion yr ysgol honno. Mae cyfrifoldeb cyffredinol gan y corff llywodraethu am bob un o bolisiau'r ysgol hyd yn oed pan nad yw'n gweithredu fel y cyflogwr. Yn gyffredinol bydd y corff llywodraethu am ystyried barn y pennaeth, y staff a'r rhieni wrth ddatblygu polisi ar gynorthwyo disgyblion ag anghenion meddygol. Mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI, dylai'r corff llywodraethu gydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau a gynhyrchir gan yr ALI fel y cyflogwr.
47. Y pennaeth sy'n gyfrifol am roi polisi'r corff llywodraethu ar waith ac am ddatblygu gweithdrefnau manwl. Mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI, mae'r pennaeth yn atebol i'r ALI fel ei reolwr llinell. Pan fo athrawon yn gwirfoddoli i helpu disgyblion gyda'u hanghenion meddygol, fel arfer dylai'r pennaeth gytuno iddynt wneud hynny, a rhaid iddo sicrhau bod athrawon yn derbyn y cymorth a'r hyfforddiant priodol lle bo angen. Y pennaeth sy'n gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd am roi meddyginiaeth fel arfer.
48. Dylai'r pennaeth sicrhau fod pob rhiant yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â phlant ag anghenion meddygol. Dylai polisi'r ysgol ddatgan yn glir y dylai rhieni gadw eu plant gartref pan fyddant yn sâl iawn. Dylai'r polisi hefyd roi sylw i safbwynt yr ysgol ar gymryd meddyginiaeth yn yr ysgol.

49. Mae dyletswydd ar ALLau i ddarparu addysg briodol i blant o oedran ysgol gorfodol na allant fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu anaf. Gellid darparu'r addysg hon mewn sawl ffordd, er enghraifft mewn ysgolion ysbyty, mewn unedau cyfeirio disgyblion, yn y cartref, neu gyfuniad o'r rhain. Mae gan ysgolion prif ffrwd ran hollbwysig i'w chwarae i gefnogi addysg plant sâl sydd ar eu cofrestrau.

Disgyblion mwy Galluog a Thalentog

50. Mae 'Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog' Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu swyddogaeth yr ALL wrth gynorthwyo ysgolion i wella a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach i ddisgyblion mwy galluog a thalentog ac mae'n pennu deg safon ansawdd i helpu'r broses o hunanwerthuso mewn ysgolion.

51. Mae'r ddogfen yn rhoi pwyslais ar strategaeth ysgol gyfan gan gynnwys cynllun gweithredu i gefnogi disgyblion galluog a thalentog. Dylai fod strategaethau ar waith gan ysgolion i nodi pa ddisgyblion fydd yn elwa ar ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion gan gynnwys rhoi sylw i ddulliau dysgu, dulliau addysgu ac ychwanegu ehangder, dyfnder a hyblygrwydd at y cwricwlwm. Dylid ystyried rhoi gofal bugeiliol i ddisgyblion unigol hefyd.

52. Er mwyn llwyddo, dylai'r ysgolion hyn adolygu cynnydd y disgyblion a sicrhau hyfforddiant i staff ac adnoddau addas. Wrth drafod darpariaeth a chynnydd, mae barn y disgyblion a'r rhieni'n bwysig.

Plant sy'n Derbyng Gofal gan Awdurdodau Lleol

53. Pan ddaw i rym, bydd adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008¹ yn nodi bod rhaid i Berson Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal gael ei benodi gan, a chydweithio'n agos â'r corff llywodraethu (neu'r Pwyllgor Rheoli yn achos Uned Cyfeirio Disgyblion). Bydd yn gwneud yn siŵr bod y sefydliad addysgol yn gweithredu polisi ar ddysgwyr sy'n derbyn gofal. Dylai'r Person Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal hysbysu'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli'n rheolaidd am nifer y dysgwyr sy'n derbyn gofal yn yr ysgol/coleg a'u hysbysu'n rheolaidd am gynnydd y dysgwyr. Dylai'r pennaeth, gyda chymorth y Person Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyng Gofal, ddarparu adroddiad blynyddol ar weithredu polisiâu'r ysgol o safbwynt plant sy'n derbyn gofal a chyfrannu at y gwaith o ddiwygio polisiâu pan fo hynny'n addas.

54. Rhaid i ALLau gydweithio'n agos ag ysgolion er mwyn cyflawni'u dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal a phennu gweithdrefnau clir ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Dylai'r corff llywodraethu fod yn gyfarwydd â pholisïau a phrotocolau'r ALL o ran derbyn a gwahardd disgyblion, a chydymffurfio â'r rhain.

¹ Nid yw Adran 20 o'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc ar waith yng Nghymru eto. Disgwylir iddi ddod i rym yn 2010 a chaiff y bennod hon ei diweddarau'n unol â hynny.

55. O fewn Llwybrau Dysgu 14-19 gall unrhyw blentyn gael rhaglen ddysgu sy'n defnyddio sawl darparwr gwahanol. Dylai'r Person Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r corff llywodraethu am unrhyw raglenni lle mae dysgwyr sy'n derbyn gofal yn mynd i fwy nag un safle. Dylai'r corff llywodraethu fonitro bod trefniadau ar waith i sicrhau na fydd disgyblion dan anfantais oherwydd eu statws gofal. Er enghraifft: trafnidiaeth, cymorth astudio ychwanegol yn y man dysgu ac unrhyw gyfarpar y gall fod ei angen ar y 'dysgwr sy'n derbyn gofal' er mwyn cael mynediad llawn at y cwrs.

56. Dylai fod gwybodaeth gan y Person Dynodedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal am unrhyw angen arbennig sydd gan y plentyn/person ifanc, a dylai feithrin perthynas waith agos â'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig.

57. Dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal yr ALI gael Cynllun Addysgol Personol. Dylid ystyried y Cynllun Addysgol Personol wrth drefnu unrhyw Gynllun Addysgol Unigol sy'n ymwneud â darpariaeth anghenion addysgol arbennig plentyn yn yr ysgol. Os oes mwy nag un cynllun gan ddysgwr sy'n derbyn gofal, dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y rhain yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol a'u bwydo i mewn i'r cynllun gofal ehangach.

Y Gyfraith

Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995: Rhan 4
Comisiwn Hawliau Anabledd. Cod Ymarfer i Ysgolion
Deddf Addysg 1996: Rhan IV
Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd 2001

Canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cwricwlwm i Bob Dysgwr (2009)
ACCAC. Cwricwlwm o Gyfle 2003
Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau 2002
Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol (Cylchlythyr 2/2001)
Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cylchlythyr 1 ac IA/2004)
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Cylchlythyr 47/2006)
Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion yn achos Disgyblion Anabl. (Cylchlythyr 15/2004)
Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion
Safonau Ansawdd ar gyfer Addysg i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrau (Cylchlythyr 17/2006)
Safonau Ansawdd mewn Addysg ar gyfer Disgyblion mwy Galluog a Thalentog (6/2008)
Ar Drywydd Dysgu (2006)
Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002)
Tuag a Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell (Rheol Sefydlog 31, 7/2007)